CYNGOR SIR
YNYS MON
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCL

# CYNLLUN YNYS MON O DAN

# ADRAN 19

# O DDEDDF EGLWYS CYMRU 1 91 4

# CYNLLUN A WNAED GAN GYNGOR SIR YNYS MON

# O DAN ADRAN 19 0 DDEDDF EGLWYS CYMRU 1914

# CYNLLUN

Trwy hyn, mae Cyngor Sir Ynys Mön, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Mån, LL77 7T[I]N, sydd ag eiddo penodol wedi ei freinio ynddo yn rhinwedd Adran 50 0 Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 a Gorchymyn Cronfeydd Deddf Eglwys Cymru (Dynodiad a Manyleb) 1996 a thrwy hynny yn sgil Adran ddywededig bydd yr eiddo'n cael ei ddefnyddio gan y Cyngor yn unol å chynllun a wnaed o dan Adran 19 o Ddeddf Eglwys Cymru 1914 gan fod y cynllun hwnnw'n berthnasol i'r eiddo yn union cyn 1 Ebrill 1996 hyd nes y bydd y cynllun hwnnw yn cael ei ddirymu neu ei ddiwygio, yn gwneud y cynllun canlynol.

Cyfeirio a chychwyn

1. Mae[l] r Cynllun yn ymwneud ag incwm o, a rheoli a gweinyddu, eiddo a freiniwyd yng Nghyngor Sir Ynys Mön yn rhinwedd adran 50 0 Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 a Gorchymyn Cronfeydd Deddf Eglwys Cymru (Dynodiad a Manyleb) 1996. Gellir cyfeirio at y cynllun hwn fel Cynllun Cronfa Degwm Cyngor Sir Ynys Mön 2024 a bydd yn weithredol o ac ar 61 y dyddiad a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru. Dehongli

2. Yn y cynllun hwn — ystyr "Deddf 1914" yw Deddf Eglwys Cymru 1914; ystyr "Deddf 1972" yw Deddf Llywodraeth Leol 1972; ystyr "Deddf 1994" yw Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994; ystyr "Gorchymyn 1996" yw Gorchymyn Cronfeydd Deddf Eglwys Cymru (Dynodiad a Manyleb) 1996; ystyr "y Cyngor" yw Cyngor Sir Ynys Mön;
   ystyr 'Prisiwr Dosbarth" yw Prisiwr Dosbarth Asiantaeth y Swyddfa Prisio Refeniw Mewndirol ar gyfer yr ardal Ile mae'r tir dan sylw;
   mae "tir" yn cynnwys tir sydd wedi [1] i orchuddio gan ddWr ac unrhyw fuddiant neu hawl yn, i neu ar draws y tir; ystyr "prif gyngor" yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;
   Mae'r un ystyr i "Cymru" ä'r hyn a roddir iddo gan Adran 269 0 Ddeddf 1972.
   Yn y cynllun hwn, oni bai bod y cyd-destun yn dweud fel arall, dehonglir cyfeiriadau at unrhyw ddeddfiad fel cyfeiriadau at y deddfiad hwnnw fel y'i diwygiwyd, y'i hymestynnwyd neu y'i cymhwyswyd gan neu o dan unrhyw ddeddfiad arall.

Gweithredu, Teitl a Gweinyddu

3. Bydd y Cynllun hwn yn weithredol o ran defnyddio'r eiddo sydd bellach wedi'i freinio yn y Cyngor yn rhinwedd adran 50 0 Ddeddf 1994, Gorchymyn 1996, ac unrhyw roddion neu waddolion y gall y Cyngor ei dderbyn wedi hyn at ddibenion cyffredinol y Cynllun hwn.

4. Bydd yr eiddo y cyfeirir ato ym mharagraff 3 yn ddarostyngedig, fel y dywedwyd uchod, yn cael ei weinyddu a'i reoli gan y Cyngor yn ddarostyngedig i ddarparjaethau'r Cynllun hwn, ac yn unol â darpariaethau'r Cynllun hwn, o dan y teitl 'Cronfa Ymddiriedolaeth Deddf Eglwys Cymru Cyngor Sir Ynys Môn" (y Gronfa).

Trafodion Busnes ayyb

5. Bydd Côd Ymddygiad y Cyngor, Adran 99 (cyfarfodydd a thrafodion) a Rhan VA (mynediad i gyfarfodydd a dogfennau) o Ddeddf 1972 yn berthnasol i'r Cyngor wrth weinyddu'r Gronfa fel y maent yn berthnasol fel arfer i'r Cyngor.

Cyfrifon a Gweinyddiaeth Ariannol

6. Bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer gweinyddu'r Gronfa yn ariannol a bydd yn sicrhau bod un o'i swyddogion yn cael ei benodi i fod yn gyfrifol am y gwaith gweinyddu hwn.

7.

(1) Bydd y Cyngor yn rhoi i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth a dogfennau y gall fod eu hangen arnynt o bryd i'w gilydd mewn cysylltiad â gweinyddiaeth ariannol y Gronfa.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu bod gwybodaeth sydd i'w darparu, neu wybodaeth sy'n deillio o ddogfennau sydd i[l]w darparu, o dan is-baragraff (1) yn cael ei thrin fel dychweliad cyllid at ddibenion Adran 168 0 Ddeddf 1972 (dychweliadau cyllid Ileol).

8. Mae Gweinidogion Cymru'n gallu ei gwneud yn ofynnol i[1] r swyddog a benodir o dan baragraff 6 gadw cyfrifon ar wahân sy'n ymwneud â gweinyddiaeth arjannol y Gronfa a bod y cyfrifon hynny'n cael eu trin fel cyfrifon at ddibenion Rhan 2 0 Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Gofalu am Ddogfennau

9. Bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau priodol mewn perthynas ag unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â'r Gronfa sydd yng ngofal y Cyngor neu unrhyw un o'i swyddogion.

Trefniadau ar gyfer Cyflawni Swyddogaethau

10.

(1) Gall y Cyngor drefnu I Bwyllgor o’r Cyngor gyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau o dan y Cynllun hwn ac, os gwneir unrhyw drefniant o'r fath, yna, oni bai bod y Cyngor yn cyfarwyddo fel arall, gall y Pwyllgor drefnu i unrhyw un o'r swyddogaethau hynny gael eu cyflawni gan lsbwyllgor.

(2) Ni fydd unrhyw drefnjadau a wneir gan y Cyngor neu Bwyllgor ar gyfer cyflawni swyddogaethau gan Bwyllgor neu ls-bwyllgor yn atal y Cyngor rhag cyflawni'r swyddogaethau hynny.

(3) Bydd Adran 104 a 106 0 Ddeddf 1972 yn berthnasol i Bwyllgor neu ls-bwyllgor a benodir o dan y paragraff hwn fel y maent yn berthnasol i unrhyw Bwyllgor neu ls-bwyllgor ara] y Cyngor.

Gwaddolion Ychwanegol

11. Caiffy Cyngor dderbyn unrhyw waddolion neu roddion ychwanegol at ddibenion cyffredinol y Cynllun hwn a gall hefyd dderbyn rhoddion neu waddolion ar gyfer unrhyw faterion penodol sy'n gysylltiedig â'r Cynllun hwn nad ydynt yn anghyson neu a fydd yn rhwystro gwaith dyladwy ei ddarpariaethau.

Caffael Tir

12. (1) Gall y Cyngor gaffael drwy gytundeb, unrhyw dir syn ofynnol at ddibenion y Cynllun hwn, o'r Gronfa.

(2) Pan fo unrhyw dir yn cael ei ddal gan y Cyngor at ddibenion y Cynllun hwn, gall y Cyngor, Ile mae'n ystyried ei fod yn angenrheidiol neu'n hwylus gaffael, o'r Gronfa, trwy gytundeb, unrhyw dir cyfagos at ddiben sicrhau defnydd effeithiol o'r tir a ddelir gan y Cyngor, a chaiff unrhyw dir a gaffaelir o dan yr is-baragraff hwn ei ddal at ddibenion y Cynllun hwn.

(3) Bydd y pWer i gaffael tir o dan y paragraff hwn yn cynnwys y pWer i gaffael tir yn gyfnewid am dir a ddelir gan y Cyngor, pe byddai unrhyw gyfnewid o'r fath yn fuddiol at ddibenion y Cynllun hwn, ym marn y Cyngor.

Meddiannu, Perchnogi a Gwaredu Tir

13.

(1) Caiff y Cyngor, yn unol â darpariaethau canlynol y paragraff hwn, feddiannu, perchnogi, neu waredu unrhyw dir a ddelir ganddo at ddibenion y Cynllun hwn nad yw'n ofynnol ei ddefnyddio at y dibenion hynny.

(2) Caiff y Cyngor feddiannu unrhyw dir a grybwyllir yn is-baragraff (1) uchod at unrhyw ddiben y mae wedi'i awdurdodi ar ei gyfer o dan unrhyw ddeddfiad i gaffael tir drwy gytundeb ar sail y cyfryw amodau, ac yn ddarostyngedig i dalu i'r gronfa unrhyw symiau o'r fath o ran rhent, fel y penderfynir gan y Prisiwr Dosbarth.

(3) Caiff y Cyngor berchnogi unrhyw dir fel y crybwyllir yn is-baragraff (1) uchod at unrhyw ddiben y mae'r Cyngor wedi ei awdurdodi ar ei gyfer yn öl unrhyw ddeddfiad i gaffael tir drwy gytundeb ac wrth berchnogi:-

(a) bydd y Cyngor yn trosglwyddo i'r Gronfa[l] r cyfryw swm y bydd y Prisiwr Dosbarth yn ardystio yw gwerth y tir; a

(b) bydd memorandwm perchnogi sy'n nodi swm y gydnabyddiaeth yn cael ei gymeradwyo ar y brif ddogfen deitl sy[l] n ymwneud â'r tir a pherchnogi.

(4) Caiff y Cyngor waredu unrhyw dir fel y crybwyllir yn is-baragraff (1) boed drwy werthu, prydlesu neu gyfnewid am y gydnabyddiaeth orau y gellir ei sicrhau yn rhesymol.

(5) Pan roddir unrhyw les o dan is-baragraff (4) uchod, rhaid i'r Cyngor sicrhau prydles wrthrannol gan y daliwr prydles; a bydd pob les yn cynnwys cyfamod ar ran y daliwr prydles ar gyfer talu rhent, a[l] r holl gyfamodau arferol a phriodol eraill syn gymwys i'r eiddo a gynhwysir ynddo ac amod i'w adfeddiannu os na thelir y rhent neu os na chyflawnir y cyfamodau.

(6) Ni fydd unrhyw beth yn y paragraff hwn yn awdurdodi perchnogi neu waredu unrhyw dir a ddelir gan y Cyngor at ddibenion y Cynllun hwn yn groes i unrhyw gyfamod neu gytundeb gorfodol.

(7) Mae darpariaethau'r paragraff hwn yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rhan 7 0 Ddeddf ausennau 2011 (Tir Elusennol).

Rheoli Tir

14. (1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau paragraff 13, bydd y Cyngor yn rheoli'r holl diroedd a ddelir ganddo at ddibenion y Cynllun ac na chânt eu meddiannu at ei ddibenion yn unol â'r gyfraith gyffredinol sy'n gymwys j reoli eiddo elusennol gan ymddiriedolwyr.

(2) Rhaid i'r Cyngor gadw mewn cyflwr da a sicrhau yswiriant gwerth llawn yn erbyn tân a risgiau arferol eraill yr holl adeiladau a ddelir gan y Cyngor at ddibenion y Cynllun hwn nad yw'n ofynnol iddynt gael eu cadw mewn cyflwr da a'u hyswirio gan y lesddeiliaid neu'r tenantiaid.

Buddsoddiadau

15. (1) Bydd unrhyw arian sy'n rhan o'r Gronfa, ond nad oes ei angen ar gyfer y gronfa am y tro, yn cael ei fuddsoddi mewn unrhyw fuddsoddiad o bryd i'w gilydd wedi'i gymeradwyo gan y gyfraith ar gyfer buddsoddi cronfeydd ymddiriedolaeth neu mewn unrhyw warant awdurdodedig a grëir gan awdurdod Ileol ac eithrio unrhyw flwydd-dal, tâl rhent neu warant drosglwyddadwy a drefnir.

(2) Bydd y Cyngor yn sicrhau bod unrhyw fuddsoddiad o[1] r fath wedi'i ddynodi fel pe bai wedi'i wneud gan y Cyngor neu swyddog awdurdodedig priodol i[1] r Cyngor, sut bynnag y bo, at ddibenion y Gronfa, ac yn ei henw, ac yn unol â'r gyfraith gyffredinol sy'n berthnasol i ymddiriedolwyr.

Trefniadau gyda Chynghorau eraill

16. Caiff y Cyngor wneud trefniadau gydag unrhyw brif gyngor arall yng Nghymru a gall weithredu ar y cyd â'r Cyngor hwnnw at unrhyw ddibenion neu i gynorthwyo unrhyw fater sy'n gyson â darpariaethau'r Cynllun hwn y mae'n credu sy'n ddymunol.

Penodi Staff

17. (1) Caiff y Cyngor benodi'r cyfryw swyddogion ag y mae'n credu sy'n angenrheidiol ar gyfer gweinyddu'r Cynllun hwn yn briodol ar delerau ac amodau rhesymol o'r fath, gan gynnwys amodau o ran tâl a threuliau sy'n daladwy i'r swyddogion allan o'r Gronfa, fel y mae[1] r Cyngor yn ei ystyried yn addas.

(2) Yn unol ag is-baragraff (1) uchod, caiff y Cyngor drefnu i unrhyw un o'i swyddogion gael eu penodi'n swyddogion rhan amser at ddibenion gweinyddu'r Cynllun hwn a chaiff unrhyw drefniant o'r fath sicrhau y telir y tâl a[i]r treuliau sy[1] n daladwy mewn perthynas â swyddogion o dan is-baragraff (1) uchod i gronfa'r Cyngor.

(3) Bydd Adran 117 0 Ddeddf 1972 (datganiad o ddiddordeb gan swyddogion mewn contractau) yn berthnasol i swyddogion a benodir o dan y paragraff hwn.

Pensiwn

18. Bydd darpariaethau rheoliadau o dan Adran 7 0 Ddeddf Blwydd-daliadau 1972, sy'n darparu ar gyfer blwydd-daliadau unigolion a gyflogir gan y Cyngor, yn berthnasol neu'n gysylltiedig â gweinyddu'r Cynllun hwn fel sy'n berthnasol i weithwyr eraill y Cyngor ac, yn unol â hynny, gall y Cyngor dalu allan o'r Gronfa i'r gronfa flwydd-dal briodol mewn perthynas â'r unigolion hynny a gyflogir y cyfryw symiau a allai ddod yn daladwy o bryd i'w gilydd o dan y rheoliadau hynny.

Defnyddio'r Gronfa

19. Yn amodol ar ddarpariaethau[1] r Cynllun hwn, bydd y Cyngor yn gyntaf yn talu allan o incwm y Gronfa holl gostau, taliadau a threuliau priodol gweinyddu a rheoli'r Gronfa ac yn gysylltiedig å hi; ac, ar öl talu'r costau, y taliadau a'r treuliau yn gysylltiedig ac yn deillio o weinyddu a rheoli'r Gronfa; ac ar öl

talu'r costau, y taliadau a[l] r treuliau dywededig, rhaid i'r Cyngor ddefnyddio'r Gronfa at ddibenion elusennol o'r fath a ddisgrifir yn Atodlen 1 y gall y Cyngor ystyried sy'n briodol o bryd i'w gilydd.

20. (1) Wrth ystyried, fel y nodwyd uchod unrhyw eiddo sydd wedi'i gynnwys yn y Gronfa, bydd y Cyngor yn rhoi sylw dyledus i anghenion ac amgylchiadau unrhyw ardal berthnasol fel y'i diffinnir isod; ar yr amod:-

(a) Ile, ym marn y Cyngor, nad yWn rhesymol ymarferol nodi ardal berthnasol mewn perthynas ag unrhyw eiddo o[l] r fath, ni fydd yr is-baragraff hwn yn berthnasol i [1] r eiddo hwnnw; a

(b) Ile nodir ardal berthnasol mewn perthynas ag unrhyw eiddo o'r fath, gall y Cyngor, fodd bynnag, ar öl ystyried yn briodol a rhoi sylw i holl amgylchiadau'r achos, ystyried yr eiddo hwnnw at unrhyw un o[l] r dibenion a awdurdodir gan y Cynllun hwn, p'un a yw'r ardal sy'n elwa yn cynnwys yr ardal berthnasol neu unrhyw ran ohoni.

(2) Yn y paragraff hwn, ystyr "ardal berthnasol" mewn perthynas ag unrhyw eiddo a gynhwysir yn y Gronfa yw ardal unrhyw blwyf a ddisgrifir mewn perthynas å'r eiddo yn Isadran (2) o Adran 19 0 Ddeddf 1914.

Pwerau Atodol y Cyngor

21. Heb ragfarnu unrhyw bwerau a weithredir o dan ddarpariaethau[l] r Cynllun hwn ac eithrio'r paragraff hwn ond yn ddarostyngedig i [1] r darpariaethau hynny, bydd gan y Cyngor bWer i wneud unrhyw beth er mwyn hwyluso, neu sy'n peri neu sy'n gysylltiedig å chyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau o dan y Cynllun hwn.

22. Bydd unrhyw ddarpariaeth yn Atodlen 1 sy'n grymuso'r Cyngor i ddefnyddio'r Gronfa at unrhyw ddibenion, yn öl y gofyn, yn cael ei dehongli fel un syn cynnwys pWer i'r Cyngor ddefnyddio'r Gronfa i gynorthwyo unrhyw gorff i gyflawni'r un diben.

# ATODLEN 1 PARAGRAFF 19

Y dibenion Elusennol y gellir defnyddio'r Gronfa ar eu cyfer.

Hyrwyddo Addysg

Addysgol

1 . Darparu buddion nad ydynt ar gael yn rhwydd o ffynonellau eraill i unigolion o unrhyw oedran mewn un neu ragor o'r ffyrdd canlynol:-

(i) Dyfarnu ysgoloriaethau, bwrsariaethau, benthyciadau neu Iwfansau cynhaliaeth i hwyluso neu gynorthwyo unigolion i astudio mewn unrhyw ysgol, prifysgol neu fan dysgu arall, a gymeradwyir gan y Cyngor, a allai gynnwys Iwfansau i ddibynyddion, os yw'r Cyngor dr farn bod hynny'n briodol.

(ii) Darparu cymorth ariannol, gwisgoedd, dillad, offer, offerynnau, offer arall, neu lyfrau neu fenthyciadau i alluogi disgyblion neu fyfyrwyr sy'n gadael yr ysgol, prifysgol neu unrhyw sefydliad addysgol arall i baratoi ar gyfer, neu i'w helpu i gael mynediad i, broffesiwn, masnach neu alwedigaeth.

(iii) Dyfarnu ysgoloriaethau neu Iwfansau cynhaliaeth neu fenthyciadau i alluogi buddiolwyr i deithio dramor i ddilyn eu haddysg.

(iv) Darparu, neu gynnig cymorth tuag at ddarparu cyfleusterau o unrhyw fath nad ydynt yn cael eu darparu fel arfer gan awdurdod addysg Ileol, neu ysgol a gynhelir gan grant, ar gyfer hamdden, hyfforddiant cymdeithasol a chorfforol mewn ysgol, prifysgol neu sefydliad addysgol arall.

(v) Darparu cymorth ariannol i alluogi disgyblion a myfyrwyr i astudio cerddoriaeth neu gelfyddydau eraill.

(vi) Darparu cymorth ariannol i alluogi buddiolwyr i ymgymryd â phrentisiaethau.

Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd, Orielau Celf ac ati

2. Hyrwyddo gwybodaeth a gwerthfawrogiad o gelfyddydau a Ilenyddiaeth Cymru ac, yn benodol, er mwyn hybu'r dibenion hynny ond heb ragfarnu eu cyffredinolrwydd:-

(i) Sefydlu, cynnal, ailgyflenwi neu gynorthwyo sefydliadau elusennol, llyfrgelloedd, amgueddfeydd, orielau celf; neu arddangosfeydd celf, gwyddonol neu ddiwydiannol (gan gynnwys arddangosfeydd sy'n ymwneud ag archaeoleg ddiwydiannol); boed yn genedlaethol neu'n Ileol, at ddefnydd a budd y Cymry'n bennaf;

(ii) Cymorth i gymdeithasau elusennol astudio a gwneud ymchwil mewn pynciau sy'n gysylltiedig â hanes, topograffi, Ilenyddiaeth a bywyd Cymru;

(iii) Darparu darlithoedd, arddangosfeydd ac offer;

(iv) Caffael, cadw a chyhoeddi cofnodion a dogfennau;

(v) Darparu man addas (drwy godi, prynu, prydlesu neu logi at ddefnydd achlysurol) at unrhyw un o'r dibenion a awdurdodir gan y paragraff hwn.

Cymorth tuag at Dlodi

Cymorth i rai mewn Angen

3. Cymorth, naill ai'n gyffredinol neu'n unigol, i unigolion sydd mewn angen, caledi neu drallod trwy roi grantiau o arian neu ddarparu, neu dalu am, eitemau, gwasanaethau neu gyfleusterau, sy'n angenrheidiol i leihau angen, caledi neu ofid y cyfryw unigolion.

Hyrwyddo Crefydd

Mannau Addoli a Chladdu

4. Cyfraniad tuag at adfer a chynnal unrhyw fan addoli cyhoeddus neu unrhyw fan claddu.

Dibenion eraill sy•n Fuddiol i'r Gymuned

Cymorth pan fo Salwch

5. Cymorth mewn achosion o angen pan fo pobl sy'n sâl, yn ymadfer, yn anabl, neu'n fregus trwy ddarparu, neu dalu am, eitemau, gwasanaethau neu gyfleusterau i leddfu'r dioddefaint neu gynorthwyo'r bobl hynny i wella, ond nad ydynt ar gael yn rhwydd iddynt o ffynonellau eraill.

Pobl H9n

6. Darparu, neu gynorthwyo i ddarparu, Ilety i bobl h9n sydd, oherwydd cyflwr ac anableddau oherwydd oed, angen Ilety, gofal a sylw o'r fath. Darparu cyllid i sefydliadau sy'n hyrwyddo Iles pobl h9n.

Cymdeithasol a Hamdden

7.

(1) Darparu, neu helpu i ddarparu, cyfleusterau ar gyfer hamdden neu alwedigaeth amser hamdden arall, sef cyfleusterau sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol ac a ddarperir er Iles cymdeithasol gyda [1]r bwriad o wella amodau bywyd yr unigolion y maent wedi'u bwriadu ar eu cyfer ac, yn benodol, er mwyn hyrwyddo[1] r dibenion hynny ond heb ragfarnu ei gyffredinolnwydd, darparu, neu helpu i ddarparu caeau chwarae, cyfleusterau chwaraeon eraill, parciau, mannau agored a chanolfannau neu neuaddau ar gyfer cyfarfodydd, darlithoedd neu ddosbarthiadau.

(2) Bwriedir i is-baragraff (1) uchod, yn benodol, ymwneud â darparu, neu helpu i ddarparu cyfleusterau ac ati i unigolion mewn angen am resymau'n ymwneud â'u hoedran ifanc, henaint, gwendid neu anabledd, tlodi neu amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd.

Materion Esthetig, Pensaernîol, Hanesyddol a Gwyddonol

8. Hyrwyddo addysg a budd cyhoeddus y Cymry drwy hyrwyddo eu diddordeb mewn materion esthetig, pensaernîol, hanesyddol neu wyddonol sy'n ymwneud â Chymru ac, yn benodol, er mwyn hybu'r materion hynny ond heb ragfarnu eu cyffredinolrwydd:

(a) Caffael a chadw:-

(i) Tir o ddiddordeb arbennig mewn perthynas â gwyddoniaeth a hanes naturiol;

(ii) Tir, adeiladau neu wrthrychau o harddwch neu o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernîol;

(b) caffael, cadw a chyhoeddi cofnodion a dogfennau o ddiddordeb hanesyddol.

Ymchwil Feddygol a Chymdeithasol, Triniaeth, ac ati.

9. Gwarchod a diogelu iechyd corfforol a meddyliol cymdeithas ac, yn benodol, er mwyn hybu'r dibenion hynny ond heb ragfarnu eu cyffredinoldeb :-

(a) hyrwyddo addysg yn theori ac ymarfer meddygaeth;

(b) hyrwyddo ymchwil a chynlluniau meddygol a chymdeithasol ar gyfer atal a thrin clefydau a chyhoeddi canlyniadau ymchwil o'r fath;

(c) darparu meithrinfeydd a chartrefi gwella a hosteli.

Ar Brawf ac ati

10. Rhoi grantiau mewn achosion o angen am gymorth:-

(a) rhai sydd wedi'u rhoi ar brawf, neu blant a phobl ifanc o gartrefi cymunedol neu unrhyw sefydliad arall neu natur debyg iawn a sefydlwyd o dan awdurdod statudol;

(b) teuluoedd unrhyw unigolion o'r fath, plant neu bobl ifanc; neu

(c) garcharorion wedi eu rhyddhau.

Pobl sy'n Ddall neu â Nam ar eu Golwg

11. Darpariaeth ar gyfer Iles pobl sy'n ddall neu â nam ar eu golwg, gan gynnwys darparu cartrefi elusennol a chartrefi gwyliau.

Argyfyngau neu Drychinebau

12. Cyfraniad tuag at liniaru effeithiau argyfyngau neu drychinebau sy'n cynnwys dinistrio neu berygl i fywyd, ac eiddo a chynorthwyo pobl mewn angen yn uniongyrchol o ganlyniad i argyfyngau a thrychinebau o'r fath.

Sefydliadau Elusennol Eraill

13. Cyfraniadau tuag at sefydliadau elusennol, y mae eu dibenion yn gyson â darpariaethau'r Cynllun hwn neu Ddeddfau Eglwys Cymru 1914 i 1945.

# ATODLEN 2 PARAGRAFF 23

Rwy'n cymeradwyo'r cynllun uchod a wnaed gan Gyngor Sir Ynys Mön o dan Adran 19 0 Ddeddf Eglwys Cymru 1914.

Cyflawnwyd fel gweithred trwy osod Sél Gyffredin Cygor Sir Ynys Mön ym mhresenoldeb: -

Enw ....LYNN BALL........................................

swydd ....CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (NES Y CYNGOR) SWYDDOG MONITRO

7081

Dyddiedig y ........................................ ~~dydd o~~ ......19/06...................................... 2024

Rwy'n cymeradwyo'r cynllun uchod a wnaed gan Gyngor Sir Ynys Mön o dan Adran 19 0 Ddeddf Eglwys Cymru 1914.

Jayne Bryant

______________________________

GWEINIDOGION CYMRU

Dyddiedig y ............30................................dydd Medi ........................ .... ......................................2024